# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 6

CYFFREDINOL

### 42 Dod i rym

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1 (adran 1);

(b) yn Rhan 3—

(i) adran 10, ond mae'r adran honno yn cael effaith yn unol ag adran 10(4);

(ii) adran 11, ond mae'r adran honno yn cael effaith yn unol ag adran 11(2);

(iii) adran 27, ond mae is-adrannau (2)(d), (3) a (4) o'r adran honno yn cael effaith yn unol ag adran 27(5);

(c) Rhan 4 (adrannau 29 i 35 ac Atodlen 3), ond mae iddi effaith yn unig at ddibenion etholiad y Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny;

(d) yn Rhan 5, adrannau 37 a 38;

(e) y Rhan hon (adrannau 39 i 43).

(2) Mae Rhan 2 (adrannau 2 i 9 ac Atodlen 1) yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

(3) Yn Rhan 3—

(a) mae adrannau 12 i 26 yn dod i rym ar 1 Mehefin 2020;

(b) mae adran 28 ac Atodlen 2 yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)(b) gynnwys darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

(5) Yn Rhan 5, mae adran 36 yn dod i rym ar ddiwrnod etholiad cyntaf y Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.